# Safonau'r Gymraeg

# Adroddiad Blynyddol 2017/18

## 1. Cyflwyniad

Mae Safonau'r Gymraeg yn gofyn bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-Y-Bont Ar Ogwr (CBSP) yn cynhyrchu ac yn cyhoeddi adroddiad blynyddoedd erbyn 30 Mehefin bob blwyddyn.

Mae'r adroddiad blynyddol hwn ar gyfer 2017/18 yn cynnwys y cyfnod 1 Ebrill 2017 tan 31 Mawrth 2018 ac yn amlinellu sut mae'r Cyngor yn parhau i gydymffurfio yn ystod y cyfnod hwn yn ogystal â nodi unrhyw ddatblygiadau newydd/meysydd cynnydd.

## 2. Sut mae'r Cyngor yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg

Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn mae'r Cyngor yn dal i aros am benderfyniad ar her ffurfiol ar y safonau canlynol: 5,7,29,29A,41,42,52,56,64,67,2,3,21,58,60,76,128 a 129.

Felly nid oes angen i'r Cyngor gydymffurfio â'r safonau hyn tra'n bod yn aros am benderfyniad gan Gomisiynydd y Gymraeg. Ond mae'n bosibl y cyfeirir at y safonau hyn yn yr adroddiad hwn i ddogfennu unrhyw gynnydd sydd wedi'i wneud o ran cydymffurfiaeth yn ystod 17/18.

### 2.1 Cydymffurfiaeth Gyffredinol

- Mae'r Cyngor yn parhau i fod â phrif swyddog sy'n gweithio gyda'r Gymraeg
- Mae cyflogeion yn parhau i dderbyn diweddariadau a gwybodaeth reolaidd ynghylch y Gymraeg o ran cydymffurfiaeth, mynediad at adnoddau megis hyfforddiant a chodi proffil yr iaith a'r diwylliant
- Mae adran benodol yn ein rhaglen sefydlu corfforaethol ar y Gymraeg a'i phwysigrwydd, sy'n cyfeirio cyflogeion newydd at adnoddau gwybodaeth eraill

- Er nad yw'r Bwrdd Gweithredu Safonau'r Gymraeg mewnol yn cyfarfod wyneb yn wyneb mwyach, rydym yn parhau i gydweithio i ddeall yr iaith a'i symud ymlaen yn ogystal â monitro cydymffurfiaeth
- Mae'r Cyngor yn gweithio gyda swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ar gynnydd o ran cydymffurfio â safonau heb eu bodloni fel y nodir ynghynt yn yr adran hon
- Mae'r Gymraeg yn parhau i fod ar gofrestr risgiau'r Cyngor er mwyn helpu monitro cydymffurfiaeth
- Mae cyflogeion yn parhau i allu cael mynediad Hyrwyddwr y Gymraeg am gymorth a chyngor
- Mae tudalennau'r fewnrwyd i staff a'r mewnflwch e-bost Cymraeg dynodedig ar gael o hyd ac mae cynlluniau ar waith i adolygu cynnwys tudalennau'r fewnrwyd yn unol â'r penderfyniad terfynol ar y safonau sy'n weddill.
- Mae'r cyngor yn parhau i ddarparu amrywiaeth o hyfforddiant ac adnoddau Cymraeg i staff.
- Mae cyflogeion yn gallu manteisio ar dri chontract cyfieithu Cymraeg er mwyn sicrhau ein bod yn ateb y galw yn ogystal â sawl math gwahanol o gymorth cyfieithu.
- Mae gennym ddogfen gydymffurfio o hyd sy'n nodi sut byddwn yn cydymffurfio â'r safonau darparu gwasanaethau, gweithrediadol, cadw cofnodion, hyrwyddo a llunio polisïau perthnasol. Mae ein gweithdrefn gwyno hefyd ar gael ar ein gwefan yn ogystal â hen adroddiadau blynyddol.
- Rydym yn parhau i roi gwybodaeth i Gomisiynydd y Gymraeg yn ôl y gofyn.

### 2.2 Safonau darparu gwasanaethau

Yn 2017/18 rydym yn parhau i:

- Ymateb i ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg lle mae angen ateb.
- Cyflwyno fersiynau dwyieithog neu Gymraeg a Saesneg ar wahân o ohebiaeth, heb drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- Rhoi cyfarch dwyieithog dros y ffôn a, lle bo'n berthnasol, parhau i sgwrsio yn Gymraeg nes iddynt orffen neu drosglwyddo galwyr i aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ( os oes un ar gael), neu i aelod o staff Saesneg ei iaith os nad oes siaradwr Cymraeg ar gael ac mae'r cwsmer yn fodlon ar hyn.
- Gweithredu un prif rif ffôn (01656 643643) i'r rhai sydd am siarad â rhywun yn Gymraeg neu yn Saesneg. Os nad oes aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael ar adeg yr alwad ffôn, caiff galwyr eu hysbysu, yn Gymraeg, pryd bydd gwasanaeth o'r fath ar gael. Mae'r rhai sydd am siarad â rhywun yn Gymraeg hefyd yn gallu gadael neges yn Gymraeg.
- Ceisio nodi ar ddeunyddiau sydd â rhif ffôn CBSP bod croeso i alwadau yn Gymraeg ac yn Saesneg. Rydym yn parhau i drin y Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg ar y deunyddiau hysbysebu.

- Defnyddio dangosyddion perfformiad ar gyfer galwadau ffôn nad ydynt yn trin galwadau a wneir yn Gymraeg yn llai ffafriol na'r rhai a wneir yn Saesneg.
- Gofyn i bobl rydym wedi'u gwahodd i gyfarfod a hoffent ddefnyddio Cymraeg yn y cyfarfod a gwneud yr holl drefniadau angenrheidiol i hwyluso hyn. Yn ôl y pecyn cymorth cyfarfodydd a ddatblygwyd, rhoddwyd cyfle i 1,673 o bobl a ddaeth i gyfarfodydd yn ystod 2017/18 i gymryd rhan yn y cyfarfod trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Anfon gwahoddiadau dwyieithog i gyfarfodydd cyhoeddus/digwyddiadau CBSP (lle bo'n berthnasol) ac ariannwyd y cyfarfodydd/digwyddiadau hynny gan CBSP (50% neu fwy o gyllid). Gofynnir i unrhyw un sy'n dod i gyfarfodydd a hoffai ddefnyddio Cymraeg yn ogystal â hysbysu cyfranogwyr bod croeso iddynt ddefnyddio'r Gymraeg (os rhoddir gwybod i ni ymlaen llaw) yn y cyfarfod. Mae'r deunyddiau a ddefnyddir i hysbysebu'r cyfarfodydd/digwyddiadau hyn neu i'w harddangos yn y cyfarfodydd/digwyddiadau yn ddwyieithog.
- Asesu'r galw am gyrsiau addysg trwy gyfrwng y Gymraeg sy'n agored i'r cyhoedd ac, os oes angen, cynnig y cwrs yn Gymraeg.
- Cynhyrchu deunyddiau marchnata, hysbysebu a chyhoeddusrwydd i'r cyhoedd (gan gynnwys datganiadau i'r wasg) yn ddwyieithog. Mae hyn hefyd yn berthnasol i ddogfennau corfforaethol i'r cyhoedd megis polisïau a rheolau yn ogystal â dogfennau ymgynghori. Mae'r dogfennau hyn yn ceisio trin y Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg. Nodir hyn yn y fersiynau Saesneg ar wahân o ddogfennau sydd ar gael yn Gymraeg (lle mae hyn yn ofynnol).
- Llunio ffurflenni sydd ar gael i'r cyhoedd yn ddwyieithog neu mewn fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Wrth lunio fersiynau ar wahân, byddwn yn nodi ar y fersiwn Saesneg o'r ffurflen bod fersiwn Gymraeg ar gael.
- Ymateb yn Gymraeg i negeseuon Cymraeg ar gyfryngau cymdeithasol lle mae angen ymateb.
- Newid arwyddion strydoedd, lleoedd a chyfeiriadau (gan gynnwys arwyddion dros dro lle maent yn berthnasol) yn sgil difrod neu draul arferol am arwyddion dwyieithog gan roi'r testun Cymraeg yn gyntaf.
- Llunio hysbysiadau swyddogol yn ddwyieithog gan roi'r testun Cymraeg yn gyntaf.
- Sicrhau bod staff derbynfa sy'n siarad Cymraeg a'r rhai sy'n dysgu Cymraeg yn gwisgo cardiau cortyn i ddangos i gwsmeriaid y gallant ddarparu gwasanaeth trwy'r Gymraeg.
- Gwneud cyhoeddiadau sain dwyieithog gyda'r cyhoeddiad Cymraeg yn gyntaf.
- Darparu ceisiadau grant (a'r broses) a thendrau (a chyfweliadau) yn Gymraeg.
- Hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg sydd gennym yn ôl yr angen.
- Llunio apps a ddefnyddir gan y cyngor yn ddwyieithog, gan drin y Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg.

Datblygiadau newydd ar gyfer 2017/18:

- Fel rhan o weithio tuag at gydymffurfio â safonau 2,3, 5, 7 a 21, rydym wedi datblygu cronfa ddata ganolog i gofnodi dewisiadau iaith dinasyddion sydd ar gael i gyflogeion trwy fewnrwyd y staff. Bydd hon yn ein helpu i gofnodi dewisiadau iaith pobl a gweithredu arnynt. O fis Ebrill 2018 ymlaen bydd y cyngor hefyd yn cofnodi dewisiadau iaith trwy'i lwyfan My Account sy'n bwydo i mewn i'r gronfa ddata dewisiadau iaith dinasyddion ganolog.
- Ym mis Ionawr 2018 dechreuon ni lunio ein hagendâu a'n cofnodion ar gyfer cyfarfodydd y Cabinet a phwyllgorau yn ddwyieithog (safon 41). Mae'r rhain ar gael ar ein gwefan.
- Yn ystod y cyfnod hwn rydym wedi bod wrthi'n datblygu gwefan ddwyieithog newydd sbon i'r cyngor a lansiwyd ym mis Mai 2018. Mae'r gwaith i lenwi'r wefan gyda chynnwys Cymraeg a Saesneg yn parhau (safonau 52 a 56).
- Yn ystod y cyfnod hwn, cynhaliwyd archwiliad o'r cyfrifon cyfryngau cymdeithasol a ddelir a lansiwyd cyfrifon cyfryngau cymdeithasol Cymraeg/dwyieithog perthnasol erbyn diwedd 2017.

## 2.3 Safonau llunio polisïau

Yn 2017/18 rydym yn parhau i:

- Ddefnyddio ein proses Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEG) i sicrhau y rhoddir ystyriaeth i'r Gymraeg wrth adolygu neu lunio polisïau.
- Gofyn i'r rhai sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau ymgynghori, ymgysylltu ac ymchwilio am eu barn o ran a allai penderfyniad polisi (os yw'n berthnasol) effeithio ar ddefnydd y Gymraeg.
- Ystyried effaith dyrannu grantiau ar ddefnydd y Gymraeg.

Datblygiadau newydd ar gyfer 2017/18:

- Rydym wedi gwneud gwaith ychwanegol i ddatblygu ein proses AEG yn fewnol. Mae hyn wedi cynnwys diweddaru ein pecyn cymorth a gwella ein cofnod canolog o Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb sydd wedi'u cwblhau.

## 2.4 Safonau gweithrediadol

Yn 2017/18 rydym yn parhau i:

- Ddarparu polisi ar gyfer defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle ar ein mewnrwyd i staff ei ddarllen.
- Galluogi cyflogeion i ddarllen y weithdrefn a'r broses gwyno yn Gymraeg, ynghyd â dogfennaeth berthnasol.
- Galluogi cyflogeion i ddarllen y weithdrefn a'r broses ddisgyblu yn Gymraeg, ynghyd â dogfennaeth berthnasol.
- Galluogi staff i ddefnyddio meddalwedd cyfrifiadurol i wirio sillafu a gramadeg.

- Sicrhau bod adrannau/rhyngwyneb berthnasol ein mewnrwyd ar gael yn Gymraeg a neilltuo adran Gymraeg ar y fewnrwyd fel adnodd i staff.
- Asesu sgiliau Cymraeg ein cyflogeion yn barhaus.
- Cynnal hyfforddiant 'cwrdd a chyfarch' a chyrsiau Cwrs Mynediad i staff.
- Darparu pecynnau e-ddysgu i staff am ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymraeg yn ogystal ag am safonau'r Gymraeg.
- Galluogi staff i ddefnyddio llofnodion e-bost a negeseuon 'nid wyf yn y swyddfa' dwyieithog. Anogir siaradwyr a dysgwyr Cymraeg i nodi eu hunain fel hynny yn eu llofnodion e-bost (trwy ddefnyddio'r logos cydnabyddedig perthnasol).
- Asesu'r sgiliau Cymraeg ar gyfer swyddi newydd a gwag. Ceir dadansoddiad o'r wybodaeth hon yn Adran 5.
- Sicrhau bod y broses ymgeisio am swyddi a'r ddogfennaeth gysylltiedig ar gael yn Gymraeg a bod y broses Gymraeg yn cael ei thrin yr un mor ffafriol â'r un Saesneg. Mae hyn hefyd yn cynnwys contractau cyflogaeth.
- Gwirio dewis iaith cyflogeion er mwyn darparu gohebiaeth am eu cyflogaeth, a ffurflenni amrywiol sy'n ymwneud â chyflogaeth, yn Gymraeg yn ôl yr angen.
- Sicrhau bod polisïau AD perthnasol ar gael yn Gymraeg.
- Gosod arwyddion dwyieithog yn ein prif dderbynfa (Swyddfeydd Dinesig), gan roi'r Gymraeg yn gyntaf.
- Bod â strategaeth pum mlynedd yr ydym yn adrodd amdani yng nghyfarfod blynyddol Pwyllgor Cydraddoldeb ein Cabinet.

Datblygiadau newydd ar gyfer 2017/18:

- Datblygu offeryn asesu i helpu rheolwyr i gael gwell dealltwriaeth o sgiliau ieithyddol ac anghenion datblygiad ieithyddol eu timau fel y gellir cynllunio hyfforddiant mwy penodol yn y dyfodol. Cafodd hyn ei beilota mewn gwasanaethau cwsmeriaid yn ystod 2017/18.
- Rydym wedi gweithio tuag at gydymffurfio mewn perthynas â'r safonau hyfforddiant – 128 a 129. Er enghraifft, sicrhawyd bod cyrsiau e-ddysgu perthnasol ar gael yn Gymraeg, estynnwyd ein polisi hyfforddiant i gynorthwyo cyflogeion i gael hyfforddiant allanol ac adolygwyd darpariaeth hyfforddiant mewn ymateb i anghenion cyflogeion.
- Mae'r gwaith i lunio ein strategaeth pum mlynedd yn parhau, gan gynnwys ystyried cyfleoedd partneriaeth a ffyrdd gwahanol o fesur effeithiolrwydd gweithgareddau sy'n ymwneud â'r cyhoedd.

### 2.5 Safonau cadw cofnodion

Yn 2017/18 rydym yn parhau i:

- Gofnodi unrhyw gwynion a dderbynnir am ein cydymffurfiaeth fel rhan o'n system cwynion corfforaethol.

- Monitro a chofnodi nifer y cyflogeion sy'n mynd ar gyrsiau hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg – gweler Adran 4 am fwy o fanylion.
- Cofnodi sgiliau Cymraeg cyflogeion ac asesiadau o swyddi newydd a gwag – gweler Adran 5 am fwy o fanylion.

## 3. Cwynion

- Yn 2016/17 cwynodd grŵp gweithredu i Gomisiynydd y Gymraeg nad oedd y cyngor yn cynnig ei holl wersi nofio yn Gymraeg. Ataliwyd yr ymchwiliad gan y Comisiynydd i alluogi'r cyngor i ofyn am gyngor. Cafodd cynllun gweithredu ei ddatblygu a'i gymeradwyo gan Gomisiynydd y Gymraeg yn ystod 2017/18 ac mae'r gwaith i'w roi ar waith yn parhau.
- Derbyniwyd cwyn gan Gomisiynydd y Gymraeg ym mis Ebrill 2017 ynglŷn â dyfarnu contract teleofal y cyngor. Penderfynodd Comisiynydd y Gymraeg na fyddai ymchwilio ymhellach i'r mater.
- Derbyniwyd cwyn anffurfiol gan y cyngor ym mis Ionawr 2018 am arwyddion anghywir ar y priffyrdd ac argaeledd staff sy'n siarad Cymraeg. Ymatebwyd i'r cwyn a daethpwyd ag ef i ben ym mis Ionawr 2018.
- Ni chafwyd unrhyw gwynion o dan y safonau llunio polisïau.

## 4. Sgiliau a hyfforddiant cyflogeion

| | Ysgolion | | | | Pob gwasanaeth arall | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Disgrifiad** | **Benyw** | **Gwryw** | **Cyfanswm** | **%** | **Benyw** | **Gwryw** | **Cyfanswm** | **%** |
| **Cyfanswm cyfrif pobl** | **2,610** | **537** | **3,147** | | **2,425** | **676** | **3,101** | |
| **Siarad Cymraeg** | | | | | | | | |
| 'Ychydig' | 327 | 58 | 385 | 12.23% | 339 | 99 | 438 | 14.12% |
| 'Eithaf da' | 55 | 15 | 70 | 2.22% | 39 | 7 | 46 | 1.48% |
| 'Rhugl' | 137 | 20 | 157 | 4.99% | 91 | 14 | 105 | 3.39% |
| 'Na' | 300 | 62 | 362 | 11.50% | 1,068 | 315 | 1,383 | 44.60% |
| Dim ymateb | 1,791 | 382 | 2,173 | 69.05% | 888 | 241 | 1,129 | 36.41% |
| **Darllen Cymraeg** | | | | | | | | |
| 'Ychydig' | 323 | 57 | 380 | 12.07% | 358 | 102 | 460 | 14.83% |
| 'Eithaf da' | 62 | 15 | 77 | 2.45% | 48 | 17 | 65 | 2.10% |
| 'Rhugl' | 139 | 21 | 160 | 5.08% | 91 | 13 | 104 | 3.35% |
| 'Na' | 295 | 62 | 357 | 11.34% | 1038 | 303 | 1,341 | 43.24% |
| Dim ymateb | 1,791 | 382 | 2,173 | 69.05% | 890 | 241 | 1,131 | 36.47% |
| **Ysgrifennu Cymraeg** | | | | | | | | |
| 'Ychydig' | 294 | 53 | 347 | 11.03% | 269 | 72 | 341 | 11.00% |
| 'Eithaf da' | 57 | 13 | 70 | 2.22% | 48 | 12 | 60 | 1.93% |
| 'Rhugl' | 131 | 20 | 151 | 4.80% | 79 | 10 | 89 | 2.87% |
| 'Na' | 336 | 69 | 405 | 12.87% | 1,140 | 340 | 1,480 | 47.73% |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dim ymateb | 1,792 | 382 | 2,174 | 69.08% | 889 | 242 | 1,131 | 36.47% |

Sgiliau Cymraeg ar 31 Mawrth 2018:

Sylwer:

- Mae'r categori 'Ysgolion' yn cynnwys cyflogeion a gyflogir yn uniongyrchol gan gyrff llywodraethu. Mae staff cynhwysiant wedi'u cynnwys yn y categori 'Pob gwasanaeth arall'.
- Mae'r categori 'Dim ymateb' yn cynnwys cyflogeion nad ydynt wedi rhoi manylion am sgiliau Cymraeg.
- Mae'r lefelau sgiliau a nodir yn seiliedig ar hunanasesiad.
- Mae gan 248 o gyflogeion swydd mewn ysgol a chaiff swydd yn y categori 'Pob gwasanaeth arall' ei chyfrif unwaith ym mhob categori.

**Nifer y cyflogeion a aeth ar gyrsiau hyfforddiant Cymraeg rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Mawrth 2018:**

- Darparwyd hyfforddiant 'Cwrdd a Chyfarch' i 24 o gyflogeion (dwy sesiwn yn ystod 2017/18).
- Aeth 37 o gyflogeion ar hyfforddiant 'Cwrs Mynediad', gan eu galluogi i ddatblygu eu sgiliau ieithyddol ymhellach. Roedd hyn yn cynnwys dau ddosbarth Blwyddyn 1 ac un dosbarth Blwyddyn 2, gyda phob un ar gyfer dwy awr yr wythnos dros ddeg wythnos ar hugain.
- Ni chafwyd unrhyw geisiadau i ddarparu deunyddiau hyfforddiant wyneb yn wyneb yn Gymraeg yn ystod 2017/18.
- Cwblhawyd 11 o fodiwlau e-ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod 2017/18. Roedd y rhain yn ymwneud â'r modiwl e-ddysgu am drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV).

## 5. Recriwtio a dethol

Nifer y swyddi newydd neu wag a hysbysebwyd yn ystod 2017/18 lle roedd sgiliau Cymraeg yn:

| | |
|---|---|
| Hanfodol: 21 | Dymunol: 613 |

**Gwasanaethau derbynfa: canolfannau cyswllt a chanolfannau cyswllt ffôn**

Y galw am wasanaethau Cymraeg yn y Ganolfan Cyswllt Cwsmeriaid rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Mawrth 2018:

| | |
|---|---|
| Rhyngweithio wyneb yn wyneb yn Gymraeg | 5 |

| | |
|---|---|
| Cyfanswm ymweliadau | 26,578 |
| Ceisiadau am Gymraeg fel % o gyfanswm y rhyngweithio a gafwyd | 0.02% |

Y galw am wasanaethau Cymraeg yn y Ganolfan Cyswllt Ffôn rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Mawrth 2018 (mae cwsmeriaid ar y ffôn yn gofyn am wasanaeth Cymraeg trwy ddewis opsiwn 7 yn ystod y neges ddwyieithog ar ddechrau'r alwad):

| | |
|---|---|
| Nifer y galwadau yn ystod oriau gwaith arferol (Cymraeg a Saesneg) | 160,528* |
| Nifer y galwadau a dderbyniwyd y tu allan i'r oriau gwaith arferol (Cymraeg a Saesneg) | Dd/B** |
| Cyfanswm y galwadau a dderbyniwyd (Cymraeg a Saesneg) | 160, 528 |
| Nifer y galwadau yn Gymraeg | 301 |
| Ceisiadau am y Gymraeg fel % o gyfanswm y galwadau | 0.19% |

*Sylwer: rydym bellach yn cael llai o alwadau gan fod ymholiadau am ailgylchu a gwastraff yn cael eu hateb yn uniongyrchol gan ein partner Kier.

*Yn 2017/18 newidiwyd ein systemau teleffoni ac o ganlyniad bu newid yn ein gallu i adrodd am alwadau (Cymraeg a Saesneg) a wneir y tu allan i'r oriau gwaith. Bydd angen i ni ddod o hyd i ddatrysiad newydd am adrodd am hyn yn 2018/19.

## 7. Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEG) a gynhaliwyd rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Mawrth 2018

Cynhaliwyd pedwar AEG llawn i ystyried effaith y polisi/strategaeth ar gyfle pobl i ddefnyddio'r Gymraeg mewn ffordd gadarnhaol a negyddol ac i drin y ddwy iaith yn gyfartal. Ni nodwyd unrhyw effaith ac, o ganlyniad, ni wnaed unrhyw addasiadau i'r polisïau/strategaethau arfaethedig a aseswyd.

## 8. Hyrwyddo a chynyddu ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymraeg

Cafodd y digwyddiadau a'r gweithgareddau canlynol eu hyrwyddo gan y cyngor rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Mawrth 2018:

- Gemau'r Gymanwlad (tîm Cymru);
- Dydd Santes Dwynwen;
- E-byst mewnol am y gronfa ddata dewisiadau dinasyddion;
- Diwrnod Shwmae Sumae:
- Dydd Gŵyl Dewi;
- Urdd ac Urdd 7 bob ochr

- Cyfrifon cyfryngau cymdeithasol Cymraeg CBSP;
- Diwylliant/ffeiriau iaith a gwyliau Cymraeg;
- Addysg cyfrwng Cymraeg.

Caiff manylion y gweithgareddau hyrwyddo hyn eu cofnodi fel rhan o'n proses adrodd ar gyfer ein Strategaeth y Gymraeg. Adroddir am y cyfnod hwn yng nghyfarfod Pwyllgor Cydraddoldeb y Cabinet ym mis Tachwedd 2018.